Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Moelwyn
# Heol Wynne
# Blaenau Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 3DW

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2014**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd naturiol ddwyieithog yw Ysgol y Moelwyn ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Mae wedi ei lleoli ym Mlaenau Ffestiniog yng Ngwynedd. Mae 332 o ddisgyblion ar y gofrestr. Bu gostyngiad bychan yn niferoedd y disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae gan tua 12% o'r disgyblion yr hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl, sydd yn ostyngiad ar ffigurau blynyddoedd diweddar. Er bod y ffigwr presennol yn is na'r ffigwr cenedlaethol, sef 17.7%, mae ardal Blaenau Ffestiniog wedi ei dynodi'n ardal 'Amcan 1' oherwydd y lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol.

Mae 36% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, sydd yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan bron i 4% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Daw 82% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ynghyd ag ychydig bach o ddisgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae nifer bach iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn cydweithio â darparwyr eraill fel aelod o Grŵp Partneriaeth Meirionnydd i ddarparu cyrsiau ar y cyd yng nghyfnod allweddol 4.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 2008.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 1997. Ar hyn o bryd, mae'n gweithredu fel pennaeth strategol, gyda chyfrifoldeb rhan amser am Ysgol Y Berwyn hefyd. Mae'n rhannu ei amser rhwng y ddwy ysgol a hefyd yn gweithredu yn rhan amser fel rheolwr prosiect ad-drefnu ysgolion yr awdurdod lleol. Mae uwch dim rheoli'r ysgol yn cynnwys y pennaeth strategol, pennaeth gweithredol ac un dirprwy bennaeth.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Moelwyn yn 2013-2014 yw £5,177. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,249 a'r lleiafswm yw £4,186. Mae Ysgol Y Moelwyn yn y trydydd safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Rhagorol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol gan fod:

- perfformiad treigl yn rhan fwyaf y dangosyddion yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg;
- disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus iawn yn eu gwaith ar draws nifer o bynciau, yn enwedig medrau darllen;
- safonau ymddygiad yn uchel, gyda disgyblion yn meddu ar agweddau aeddfed at eu gwaith;
- lefelau presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol yn gyson ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg;
- athrawon yn gwneud defnydd helaeth o ystod o dechnegau asesu effeithiol, gyda'r systemau olrhain cynnydd disgyblion yn hynod drylwyr ar lefel ysgol gyfan ac adrannol; a bod
- darpariaeth helaeth o weithgarwch y tu hwnt i oriau ysgol arferol sy'n cael effaith sylweddol ar gynnydd a chyflawniadau disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol gan fod:

- arweinyddiaeth flaengar y pennaeth strategol gyda chymorth effeithiol aelodau eraill yr uwch dîm rheoli, wedi arwain at batrwm clir o gynnydd arwyddocaol dros gyfnod a deilliannau uchel;
- strategaethau manwl ar gyfer lleihau effaith amddifadedd ar gyflawniadau disgyblion, gyda ffocws parhaus ar sicrhau gwelliant pellach o ran safonau;
- lefel uchel o gysondeb ar draws yr ysgol mewn agweddau pwysig, yn cynnwys addysgu ac asesu;
- systemau hunan arfarnu trylwyr ar lefel ysgol gyfan ac adrannol, sy'n bwydo'r cynlluniau gwella yn effeithiol;
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys targedau heriol ar gyfer gwelliant, gyda defnydd helaeth o feini prawf meintiol i fesur cynnydd yn erbyn y targedau; a bod
- corff llywodraethol yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at brosesau cynllunio strategaethol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio medrau rhifedd ar y lefel briodol yn rheolaidd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2 Datblygu technegau holi ymhellach mewn gwersi a gwneud mwy o ddefnydd o dasgau gwahanol ar gyfer yr ystod o allu mewn dosbarthiadau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad yn 2012 ac yn 2013 yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol di-dâl ac ymhell uwchlaw disgwyliadau. Bu perfformiad yn y dangosyddion sydd yn cynnwys ystod ehangach o bynciau bron i gyd yn y 25% uchaf yn y tair blynedd rhwng 2011 a 2013. Mae'r ysgol yn llwyddo i ychwanegu gwerth sylweddol dros gyfnod ym mron i bob dangosydd perfformiad, yn enwedig ar sail cyflawniadau'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi gosod yr ysgol uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Dros gyfnod, mae cyflawniadau'r disgyblion ar y lefelau uwch wedi bod, gan mwyaf, yn is na ffigyrau'r teulu o ysgolion tebyg mewn Saesneg ond yn uwch na'r teulu mewn Cymraeg ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r merched a chyflawniadau'r bechgyn yn rhan fwyaf y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Mae bron pob disgybl yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi ac yn meddu ar agweddau aeddfed tuag at eu gwaith. Maent yn dangos lefelau uchel o gyfranogiad ac yn dyfalbarhau â'u tasgau. Maent yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau bach. Gwnânt gynnydd da mewn medrau dysgu annibynnol ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu mewn modd aeddfed.

Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud yn y gwersi ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd a'u hystyried yn ofalus. Wrth drafod fel dosbarth cyfan, mae llawer o'r disgyblion yn cynnig ymatebion i gwestiynau'r athrawon gyda hyder ac aeddfedrwydd cynyddol. Er hynny, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn cyfrannu yn fwy estynedig ac yn ymhelaethu er mwyn esbonio yn fanwl neu gyfiawnhau eu safbwyntiau. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r cywair priodol wrth gyfrannu yn llafar, ac mae ansawdd y mynegiant rhan fwyaf y disgyblion yn lân. Nodwedd gref yw'r cynnydd clir y mae disgyblion yn ei wneud o ran geirfa benodol a thermau pynciol. Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn cyd-drafod yn effeithiol â'u cyfoedion wrth gydweithio ar dasgau grŵp.

Mae'r modd y mae disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn gyson mewn gwersi ar draws y cwricwlwm yn gryfder arwyddocaol. Mae llawer o'r disgyblion yn medru cywain gwybodaeth benodol o ffynonellau gwahanol fel rhan o'r gweithgareddau dysgu, a'i defnyddio yn effeithiol i grynhoi'r wybodaeth i ystod o bwrpasau. Mae hyn yn cael effaith arwyddocaol o ran ehangu eu gwybodaeth a datblygu eu dealltwriaeth

o'u gwaith ar draws y cwricwlwm. Gall llawer o'r disgyblion drafod nodweddion technegau awduron mewn gweithiau llenyddol i safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd clir yn eu gallu i ysgrifennu yn estynedig ac yn gywir at wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent hefyd yn gwneud defnydd priodol o'u medrau ysgrifennu ar draws ystod briodol o bynciau. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n doreithiog, gan ddangos lefel uchel o gywirdeb yn eu gwaith. Maent yn medru cynhyrchu darnau creadigol diddorol sy'n dangos gafael dda ar ramadeg a thechnegau arddull. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o fedrau ailddrafftio i wella cywirdeb a chynnwys eu gwaith ysgrifenedig mewn sawl pwnc.

Mae disgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhif sylfaenol, gan gynnwys mesur, trin data a datrys problemau rhifedd yn effeithiol yn eu gwersi mathemateg. Fodd bynnag, mewn ychydig o bynciau yn unig mae disgyblion yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau rhifedd ar lefel briodol.

Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd sylweddol. Gwna disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd gynnydd sylweddol mewn perthynas â'u targedau personol ac maent yn cyflawni'n dda yn y gwersi. Caiff hyn ei adlewyrchu yn eu llwyddiant yn arholiadau diwedd cyfnod allweddol 4. Cryfder arwyddocaol yw cynnydd a chyflawniadau disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol di-dâl yn erbyn disgwyliadau a'u cyflawniadau blaenorol. Mae disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol heb gymhwysedd yn y Gymraeg yn gwneud cynnydd buan sy'n eu galluogi i gyfranogi'n llawn yn y gwersi ar draws y cwricwlwm.

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'r rhan fwyaf yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol iawn â'r ychydig o achosion o fwlio sydd yn codi. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n heini ac maent yn ymwybodol o egwyddorion bwyta ac yfed yn iach. Mae canran y disgyblion sydd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau ffitrwydd, chwaraeon a hamdden yn uchel.

Mae bron pob disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd ac at oedolion. Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn uchel. Mae disgyblion yn manteisio'n dda ar y cyfleoedd niferus i gyfranogi mewn gweithgareddau addysgol y tu hwnt i'r oriau ysgol arferol.

Ychydig iawn o waharddiadau dros dro a fu dros y blynyddoedd diwethaf ac ni fu gwaharddiad parhaol ers nifer o flynyddoedd. Mae lefelau presenoldeb y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae cyfranogiad disgyblion yng nghymuned yr ysgol yn helaeth, ac maent yn ymfalchïo yn ei bywyd a'i gwaith. Mae'r modd y mae disgyblion yr ysgol yn meithrin ymrwymiad cryf i'r gymuned leol yn gryfder arwyddocaol. Gwnânt gyfraniadau

gwerthfawr drwy amrediad eang ac amrywiol o weithgareddau gwirfoddol, yn cynnwys prosiectau ‘Cymunedau’n gyntaf’ ac ‘Antur Stiniog’, ynghyd â chyfrannu at wella’r amgylchedd lleol drwy fentrau’r ‘Dref werdd.’  Maent yn codi symiau uchel o arian i elusennau lleol a chenedlaethol.

Drwy weithgarwch y cyngor ysgol, y pwyllgor maeth ac is-bwyllgor ‘Llais y disgybl’, cyfranna’r disgyblion eu safbwyntiau yn ymwneud â dysgu ac addysgu yn yr ysgol, yn cynnwys yr hyn sy’n nodweddu addysgu da.  Maent hefyd yn cyfrannu’n effeithiol at benderfyniadau yn ymwneud ag amgylchedd a chyfleusterau’r ysgol, er enghraifft y rhaglen o weithgareddau chwaraeon, hamdden a gweithgareddau awyr agored.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Rhagorol**

Nodwedd flaengar o’r ddarpariaeth yw’r clybiau gwaith cartref a’r rhaglen gynhwysfawr o weithdai adolygu a sesiynau cefnogaeth dysgu yn ystod yr awr ginio a’r tu hwnt i oriau arferol ysgol.  Mae’r ysgol hefyd yn darparu ystod o weithgareddau hamdden, ynghyd â sesiynau penodol i wella medrau a dealltwriaeth bynciol y tu hwnt i oriau ysgol.  Mae niferoedd uchel o’r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd ychwanegol hyn.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol yng nghyfnod allweddol 3, ac yn manteisio ar gyrsiau i ddisgyblion 14-16 oed yn y coleg addysg bellach lleol i sicrhau ystod eang a chytbwys o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.  Mae'r rhaglen addysg gysylltiedig â gwaith yn helaeth.

Mae'r modd y mae’r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd wedi ei hymgorffori yn y profiadau dysgu ar draws y pynciau yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at safonau a chynnydd disgyblion.  Mae pynciau ar wahân i’r Gymraeg a Saesneg yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu ymhellach y medrau llythrennedd mewn ystod o gyd-destunau.  Mae’r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio yn rheolaidd ystod o fedrau darllen mewn gwersi yn nodwedd gref o’r gwaith ar draws y cwricwlwm ac yn cael effaith arwyddocaol ar ddealltwriaeth bynciol y disgyblion a’u cymhelliant i ddysgu.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran cynllunio ar sail y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.  Er bod cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi eu nodi, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar ystod a her y profiadau dysgu ar gyfer rhifedd ar draws y pynciau.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r iaith Gymraeg a dealltwriaeth y disgyblion o’r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus iawn.  Er mwyn sicrhau datblygiad iaith ar draws y pynciau, mae’r ysgol yn ad-drefnu rhai grwpiau Blwyddyn 7 yn ôl eu gallu ieithyddol ac yn gwneud defnydd helaeth o lyfrynnau geirfa ac iaith.  Mae’r ysgol yn cynllunio’n ofalus i sicrhau bod defnydd cynyddol o’r Gymraeg fel cyfrwng addysgu ar gyfer y dysgwyr.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

## Addysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn flaengar yn y modd y mae'n cadw golwg fanwl ar gynnydd grwpiau o ddisgyblion ac unigolion ac yn defnyddio'r wybodaeth i fynd i'r afael â thangyflawniad a sicrhau cynnydd parhaus.

Mae athrawon yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu cynhaliol yn y gwersi sy'n galluogi'r disgyblion i fwrw ymlaen â'u gwaith a gwneud cynnydd. Mae ganddynt berthynas dda â'r disgyblion, wedi ei seilio ar barch ac anogaeth, a disgwyliadau uchel ohonynt.

Mae athrawon yn cynllunio dilyniant o weithgareddau dysgu cydlynol ar gyfer y gwersi, gyda llawer ohonynt yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion drafod a dadansoddi enghreifftiau a chyflwyno geirfa a thermau fel paratoad ar gyfer y prif dasgau. Mewn llawer o'r gwersi, mae'r cyfleoedd helaeth i'r disgyblion ddefnyddio a gwella eu medrau llythrennedd yn gryfder arwyddocaol. Ar brydiau, mae diffyg tasgau penodol ar gyfer sicrhau her briodol i ddisgyblion ar wahanol lefelau o allu.

Yn rhan fwyaf y gwersi, mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o gwestiynau sy'n annog ymatebion llafar gan y disgyblion. Er hynny, mewn ychydig o wersi nid oes digon o ddefnydd o gwestiynau mwy heriol sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu gallu i ymateb yn fwy helaeth ac i resymu a chyfnewid eu syniadau.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu yn effeithiol i ddatblygu medrau'r disgyblion ac i sicrhau eu bod yn deall sut i wella eu gwaith. Nodwedd gyson yn y gwersi yw defnydd effeithiol disgyblion o feini prawf llwyddiant i asesu gwaith ei gilydd yn ystyrlon. Mewn llawer o adrannau pwnc, mae defnydd o flaengaredd fel cardiau iaith a thaflenni sylwadau yn sicrhau bod disgyblion yn dychwelyd at eu gwaith i roi sylw i agweddau penodol. Caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i wella cynnwys a chywirdeb iaith eu gwaith drwy ailddrafftio.

Mae manylder y trefniadau olrhain cynnydd yn agwedd sydd yn arwain y sector. Yn sgil hyn, mae targedau heriol yn cael eu pennu ar gyfer ystod o agweddau ar gyflawniad a lles pob disgybl. Mae cynnydd yn cael ei fonitro yn fanwl gywir ac yn arwain at weithredu pellach yn ôl yr angen ar lefel disgyblion unigol neu grwpiau. Yn ychwanegol i hyn, mae'r monitro cynnydd ar lefel pynciol a hefyd ar agweddau penodol o gyrsiau cyfnod allweddol 4 yn arwain at fentrau fel seminarau pynciol i wella medrau a gwybodaeth.

Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn rhoi sylw helaeth i adnabod y rhwystrau i ddysgu yn sgil amddifadedd cymdeithasol yr ardal a chefndir cyfran o'r disgyblion. Mae'r strategaeth gynhwysfawr yn y cyswllt hwn yn allweddol i'w llwyddiant. Rhan greiddiol o'r strategaeth yw'r modd y mae'r ysgol yn mynd ati i gasglu gwybodaeth fanwl am gefndir disgyblion unigol ac yn ei defnyddio i gynllunio ystod o ymyraethau penodol i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i ddysgu. Mae ganddi systemau cynhwysfawr i

olrhain cynnydd mewn agweddau ar ddatblygiad academaidd a phersonol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu yn llwyddiannus ymwybyddiaeth y disgyblion o fwyta ac yfed yn iach a dulliau iachus o fyw. Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r cyfleoedd a roddir i'r disgyblion ymgymryd â gweithgareddau diwylliannol Cymreig a chymunedol yn gryfder amlwg, ac yn hyrwyddo lles y disgyblion a'u cyfranogiad ym mywyd y gymuned leol.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i hyrwyddo presenoldeb uchel, yn cynnwys talu'n rhannol gostau cyflogi swyddog lles ar y safle i gydweithio â disgyblion a rhieni. Arweiniodd hyn at ostyngiad dros gyfnod i lefel isel yn niferoedd y disgyblion sydd yn colli ysgol yn rheolaidd. Mae'r grŵp 'Yn ein Blaenau' sy'n cael ei arwain gan yr ysgol yn enghraifft o'r cydweithio amlasiantaeth blaengar er mwyn gweithio â theuluoedd a phobl ifainc i ostwng lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ysgol a'r gymuned.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o'r ysgolion cynradd partner yn effeithiol i drefnu ymyrraeth gynnar ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae systemau i fonitro cynnydd a darparu cynhaliaeth i'r disgyblion hyn yn sicrhau profiadau eang a chytbwys. Caiff rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynnwys yn llawn yn y trefniadau cynllunio ac adolygu cynnydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhaliol sy'n hyrwyddo gwerthoedd ac ymagweddau aeddfed a pharch ymhlith y disgyblion yn llwyddiannus iawn yn unol â'i harwyddair, sef 'gosod sylfaen i'r dyfodol mewn awyrgylch gartrefol'.

Mae'n ysgol gynhwysol gyda disgyblion yn derbyn amrywiaeth o gyfleoedd sy'n eu helpu nhw i wneud cynnydd a datblygu yn unigolion cyflawn sy'n cyfranogi'n llawn yn y gymdeithas leol. Mae'n llwyddo i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd beth bynnag yw eu cefndir neu anghenion penodol, gyda hyn yn greiddiol i'w llwyddiant a'r deilliannau uchel y mae'n eu cyflawni. Er enghraifft, mae'r ysgol yn helpu i sicrhau cyfranogiad uchel gan y disgyblion a'u rhieni drwy gynnig trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ddigwyddiadau, ynghyd ag ar gyfer gweithgarwch fel y clybiau gwaith cartref.

Mae'r adeiladau, cyfleusterau ac adnoddau dysgu yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae'r adeilad, toiledau a'r safle yn cael eu cynnal a chadw i safon uchel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar y pennaeth strategol, gyda chefnogaeth effeithiol aelodau eraill yr uwch dîm rheoli, wedi cael effaith arwyddocaol o ran codi safonau.

Mae'r gwelliant mewn llawer o ddangosyddion perfformiad ar raddfa uwch nag yn genedlaethol. Rhan allweddol o'r gwelliant yn y prif ddangosyddion perfformiad fu mynd i'r afael â'r flaenoriaeth genedlaethol i leihau effaith amddifadedd.

Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer diwallu anghenion disgyblion penodol, gan gynnwys lefel uchel o gynhaliaeth, wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i sicrhau'r deilliannau uchel. Hefyd, mae arweinyddiaeth wedi llwyddo i fynd i'r afael yn drylwyr â blaenoriaethau cenedlaethol eraill fel codi safonau llythrennedd, ynghyd â lleihau'r amrywiaeth mewn agweddau ar addysgu ac asesu ar draws yr ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli yn trosglwyddo eu dyheadau yn llwyddiannus iawn i holl ran ddeiliaid yr ysgol, gan gynnwys disgyblion, rhieni, a'r gymuned leol. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel a thargedau heriol i ymgyrraedd atynt.

Mae gan yr ysgol strwythurau rheoli a phwyllgorau effeithiol, yn cynnwys systemau trylwyr ar gyfer sicrhau atebolrwydd rheolwyr canol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio ystod eang o ddata'n drylwyr i fonitro perfformiad. Mae adrannau pwnc yn sicrhau bod dehongli data trylwyr hyd lefel disgybl unigol yn arwain at dargedu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth glir o'i swyddogaethau, ac mae'n llwyddo i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cefnogi a herio'r ysgol. Mae cysylltiadau buddiol rhwng aelodau o'r corff a gwahanol adrannau a meysydd yn yr ysgol yn dyfnhau adnabyddiaeth y corff o waith yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn rhan weithredol o lunio cynllun datblygu'r ysgol ac mae ganddynt gyfrifoldebau penodol ar gyfer monitro gweithrediad y bwriadau.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu cynhwysfawr o ansawdd uchel. Golyga hyn bod gan reolwyr ar bob lefel ymwybyddiaeth drwyadl o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn crynhoi perfformiad yr ysgol yn fanwl gywir a thrylwyr. Yn yr un modd, mae cysondeb ar draws adroddiadau hunanarfarnu adrannol o ran cynnwys arfarniadau manwl o safon uchel.

Mae'r uwch dim rheoli wedi cynllunio calendr manwl o weithgareddau sydd yn ffocysu ar gasglu tystiolaeth uniongyrchol gyfredol er mwyn gallu codi a chynnal safonau uchel. Ar bob lefel, mae arweinwyr yn defnyddio ystod o ffynonellau er mwyn dadansoddi data yn fanwl gywir ac yn drylwyr. Er enghraifft, ar lefel adrannol, mae arweinwyr yn dadansoddi atebion pob cwestiwn arholiad mewn manylder er mwyn sicrhau eu bod yn deall yn llawn ble mae angen iddynt ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r disgyblion.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn arsylwi gwersi yn dymhorol ac yn llunio adroddiadau defnyddiol gydag argymhellion clir i wella agweddau ar yr addysgu. Nodwedd gref yw'r amser sy'n cael ei neilltuo i gynnal sgwrs broffesiynol yn syth ar ôl yr arsylwi. Yn yr un modd, mae arweinwyr ar bob lefel yn craffu'n ofalus ar waith disgyblion i wella safonau a'r asesu. Mae'r uwch dîm rheoli yn rhannu canfyddiadau'r cylchoedd

monitro yn effeithiol mewn adroddiadau crynodol lle nodir arferion da a blaenoriaethau i wella.

Ar bob lefel, mae athrawon yn defnyddio adborth o holiaduron ddisgyblion yn effeithiol wrth gynllunio ar gyfer gwella. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gwrando ar farn y rhieni yn ofalus, yn llunio cynllun gweithredu ar y canfyddiadau ac yn adrodd yn ôl iddynt mewn modd blaengar ar y camau gweithredu.

Mae blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r hunanarfarnu gyda thargedau uchelgeisiol i gynnal y disgwyliadau uchel o fewn yr ysgol. Mae'n ddogfen effeithiol iawn, gyda strategaethau clir, adnoddau pwrpasol, terfynau amser a thargedau mesuradwy. Yn yr un modd, mae cysondeb y cynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol yn gryfder arwyddocaol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Partneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r cartref yw un o nodweddion cryfaf yr ysgol. Mae systemau cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni, gan gynnwys defnydd helaeth o negeseuon testun i nifer o bwrpasau, megis llongyfarch unigolion, a rhybuddion am ddyddiadau cau pwysig i ddisgyblion. Mae cylchgrawn diddorol i rieni, gyda lle amlwg i adborth gan yr ysgol i ganlyniadau holiaduron i rieni. Mae'r grŵp "Pwy Faga Blant?" yn hyrwyddo cyfranogiad rhieni disgyblion gan gynnwys rhieni disgyblion mwy bregus yn effeithiol iawn, gan sicrhau partneriaeth rymus i fynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd partner ar gyfer rhannu adnoddau, rhannu arferion da a chydweithio. Mae'r llyfryn iaith a geirfa dalgylchol yn enghreifftiau blaengar o gydweithio i godi ansawdd y Gymraeg gan ddisgyblion yr ardal.

Er mwyn ehangu'r ddarpariaeth bynciol i'r disgyblion, yn arbennig ym maes pynciau galwedigaethol, mae partneriaeth lwyddiannus gydag ysgolion uwchradd eraill a'r coleg lleol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol yn eu lle i sicrhau ansawdd yn y ddarpariaeth ar y cyd a derbyn gwybodaeth am gynnydd eu disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n helaeth mewn partneriaeth â'r gymuned leol. Mae blaengaredd fel 'Antur Stiniog', 'Y Dref Werdd a'r grŵp 'Masnach Deg' a chinio i'r henoed yn hybu medrau ac ehangu gorwelion disgyblion yn llwyddiannus.

Mae cyflogwyr yr ardal yn bartneriaid gwerthfawr i'r ysgol. Maent yn darparu lleoliadau profiad gwaith ac yn cynnig gwasanaeth cyfweliadau i ddisgyblion Blwyddyn 11.

Mae gan yr ysgol gyswllt priodol gyda sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Yn sgil y ffocws parhaus ar godi safonau, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref. Mae amcanion penodol sy'n canolbwyntio ar godi safonau a therfynau amser priodol i lywio gwaith pedair cymuned ddysgu broffesiynol yr ysgol. Mae hyn yn arwain at

rannu arferion da, sydd yn eu tro yn sicrhau cysondeb gweithredu o safon uchel, yn enwedig mewn agweddau fel asesu a datblygu medrau llythrennedd.

Mae'r ysgol yn buddsoddi'n helaeth yn ei staff addysgu a chymorthyddion. Rhoddir cefnogaeth werthfawr i'r athrawon sydd yn dysgu tu allan i'w prif faes, athrawon newydd gymhwyso a'r rhai sydd angen cynhaliaeth benodol. Gwna'r ysgol ddefnydd blaengar o gymorthyddion yn ystod a'r tu hwnt i oriau ysgol arferol, yn enwedig yng nghyswllt cynnal y clybiau gwaith cartref a'r sesiynau adolygu. Mae'r hyfforddiant i arweinwyr canol a'r arweiniad ar arsylwi gwersi wedi gwneud cyfraniad pwysig at effeithiolrwydd trefniadau gwella'r ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr, gyda'r targedau gwella sy'n deillio o hyn yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol. Mae rhannu arferion da ymysg athrawon yn nodwedd gref. Mae'r ysgol hefyd yn cyfrannu'n helaeth at rannu arferion gydag ysgolion uwchradd eraill yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r pennaeth strategol a'r llywodraethwyr yn cynllunio'r defnydd o'r gyllideb ysgol yn ofalus.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd yn dangos patrwm o welliant dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol di-dâl. Yn 2013, roedd perfformiad yn arwyddocaol uwch na disgwyliadau. Mae'r ysgol yn ychwanegu gwerth arwyddocaol o ystyried cyflawniadau'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Bu perfformiad mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 3 yn gyffredinol islaw'r teulu dros gyfnod tan 2013 ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefelau uwch. Mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi bod yn naill ai'r 25% uchaf neu'r 50% uwch mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn y Gymraeg, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn naill ai'r 25% uchaf neu'r 50% uwch mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Ar y lefelau uwch, mae cyflawniadau yn gyffredinol wedi bod uwchlaw cyfartaleddau'r teulu. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod gan mwyaf yn uwch na ffigurau'r teulu dros gyfnod a naill ai yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r merched a'r bechgyn ar draws y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 3.

Mae cyflawniadau disgyblion prydau ysgol yn ddi-dâl yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi dangos patrwm o welliant arwyddocaol dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, bu patrwm arwyddocaol o welliant ym mron i bob dangosydd rhwng 2010 a 2013, yn enwedig yn y trothwy lefel 2. Fel yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn llwyddo i ychwanegu gwerth sylweddol dros gyfnod ym mron i bob dangosydd, yn enwedig ar sail cyflawniadau'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yn 2012 a 2013, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd uwchlaw ffigwr y teulu ac yn y 25% uchaf, ar ôl bod yn y 50% is yn y ddwy flynedd flaenorol. Bu patrwm tebyg yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg ac yn y sgôr bwyntiau wedi ei chapio. Bu perfformiad yn y trothwy lefel 1 a throthwy lefel 2 uwchlaw'r teulu a, gan mwyaf, yn y 25% uchaf dros y tair blynedd ddiwethaf.

Bu patrwm clir o welliant gan mwyaf yn y pynciau craidd yn unigol, yn enwedig mewn gwyddoniaeth. Roedd perfformiad ar lefel 2 mewn Saesneg yn is na'r teulu ac yn y 25% isaf rhwng 2010 a 2012, cyn codi i'r 50% uwch yn 2013. Yn y Gymraeg, mae cyflawniadau'r disgyblion ar lefel 2, gan mwyaf, wedi gosod yr ysgol uwchlaw'r teulu ac yn y 50% uwch, cyn codi i'r 25% uchaf yn 2013. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi codi uwchlaw'r teulu ac mae yn y 25% uchaf neu'r 50%

uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ar ôl bod islaw’r teulu ac yn y 50% is neu’r 25% isaf yn y ddwy flynedd flaenorol. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi codi i’r 25% uchaf yn 2012 a 2013. Ar lefel 1, mae perfformiad ar draws y pynciau craidd yn gyffredinol yn cymharu’n ffafriol â ffigyrau’r teulu.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau’r bechgyn a’r genethod, ac eithrio yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg.

Yn 2012, bu cynnydd sylweddol yn y bwlch yng nghyflawniadau’r grŵp disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol yn ddi-dâl o gymharu â gweddill y garfan yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg. Yn y trothwy lefel 1, mae’r disgyblion hyn wedi cyflawni gystal â gweddill y garfan yn 2011 a 2012 ac yn y trothwy lefel 2 yn 2012.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael addysg amser llawn statudol heb gymhwyster cydnabyddedig yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Uwchradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 101 | 82<br>81% | 19<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 43% | 52% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 99 | 61<br>62% | 33<br>33% | 5<br>5% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 101 | 72<br>71% | 28<br>28% | 1<br>1% | 0<br>0% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 101 | 69<br>68% | 31<br>31% | 1<br>1% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 101 | 85<br>84% | 16<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 8% | 2% | |
| I am doing well at school | 101 | 55<br>54% | 44<br>44% | 2<br>2% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 101 | 67<br>66% | 32<br>32% | 2<br>2% | 0<br>0% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 101 | 49<br>49% | 43<br>43% | 9<br>9% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 101 | 81<br>80% | 20<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 46% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 101 | 35<br>35% | 61<br>60% | 5<br>5% | 0<br>0% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 101 | 68<br>67% | 23<br>23% | 10<br>10% | 0<br>0% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 29% | 50% | 17% | 4% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 99 | 61<br>62% | 31<br>31% | 7<br>7% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 101 | 72<br>71% | 28<br>28% | 1<br>1% | 0<br>0% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 100 | 71<br>71% | 28<br>28% | 1<br>1% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 101 | 67<br>66% | 30<br>30% | 2<br>2% | 2<br>2% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 101 | 73<br>72% | 28<br>28% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 43 | 23<br>53% | 16<br>37% | 4<br>9% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 19 | 11<br>58% | 7<br>37% | 1<br>5% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 27% | 50% | 16% | 6% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | | 187 | | 102<br>55% | 80<br>43% | 3<br>2% | 1<br>1% | 1 | | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | | | 43% | 50% | 4% | 1% | | | |
| My child likes this school. | | 186 | | 90<br>48% | 84<br>45% | 10<br>5% | 1<br>1% | 1 | | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | | | 46% | 48% | 4% | 1% | | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | | 187 | | 90<br>48% | 92<br>49% | 4<br>2% | 0<br>0% | 1 | | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | | | 49% | 45% | 3% | 1% | | | |
| My child is making good progress at school. | | 185 | | 96<br>52% | 83<br>45% | 5<br>3% | 0<br>0% | 1 | | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | | | 45% | 48% | 4% | 1% | | | |
| Pupils behave well in school. | | 185 | | 61<br>33% | 96<br>52% | 13<br>7% | 3<br>2% | 12 | | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | | | 22% | 55% | 11% | 3% | | | |
| Teaching is good. | | 183 | | 95<br>52% | 83<br>45% | 4<br>2% | 0<br>0% | 1 | | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | | | 33% | 57% | 5% | 1% | | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | | 187 | | 131<br>70% | 55<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | | | 51% | 45% | 2% | 0% | | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | | 187 | | 86<br>46% | 89<br>48% | 7<br>4% | 0<br>0% | 5 | | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | | | 31% | 53% | 8% | 2% | | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | | 183 | | 77<br>42% | 76<br>42% | 20<br>11% | 1<br>1% | 9 | | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | | | 32% | 48% | 9% | 2% | | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | | 187 | | 86<br>46% | 95<br>51% | 3<br>2% | 1<br>1% | 2 | | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | | 33% | 53% | 7% | 1% | | | |
| My child is safe at school. | | 187 | | 104<br>56% | 78<br>42% | 3<br>2% | 0<br>0% | 2 | | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | | | 41% | 52% | 3% | 1% | | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 182 | 77 | 83 | 4 | 2 | 16 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 42% | 46% | 2% | 1% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 186 | 90 | 88 | 8 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 47% | 4% | 0% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 187 | 93 | 88 | 4 | 1 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 50% | 47% | 2% | 1% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 187 | 68 | 101 | 14 | 0 | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 36% | 54% | 7% | 0% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 185 | 81 | 99 | 2 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 44% | 54% | 1% | 0% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 182 | 61 | 94 | 10 | 0 | 17 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 34% | 52% | 5% | 0% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 187 | 104 | 77 | 4 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 56% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 186 | 107 | 71 | 5 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 58% | 38% | 3% | 0% | | |
| | | 40% | 48% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Simon Davies | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Christine Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eleri Moss | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |